**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol**

**Dyddiad y cyfarfod:** **10fed Ebrill 2013**

**Aelod Arweiniol / Swyddog:** **Y Cynghorydd Barbara Smith / Gary Williams**

**Awdur yr Adroddiad:** **Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd**

**Teitl:** **Gwe-ddarlledu a mynychu o bell**

---

## 1 Beth yw byrdwn yr adroddiad?

1.1 Mae'r adroddiad yn ymwneud â'r cynigion a wnaed gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gwe-ddarlledu a mynychu o bell.

## 2 Pam cyflwyno'r adroddiad hwn?

2.1 Mae'r adroddiad yn ceisio hysbysu aelodau'r Pwyllgor ynglŷn â chynigion Llywodraeth Cymru ar we-ddarlledu cyfarfodydd y cyngor a gallu'r Aelodau i fynychu cyfarfodydd o bell.

## 3 Beth yw'r argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor yn cydnabod y sefyllfa mewn perthynas â gwe-ddarlledu a mynychu o bell a'r camau nesaf a awgrymir.

## 4 Manylion yr adroddiad

4.1 Ysgrifennodd y cyn-Weinidog ar gyfer Cyfathrebu a Llywodraeth Leol at yr holl awdurdodau yn gynharach eleni yn dweud bod Llywodraeth Cymru yn rhyddhau £1.2 miliwn ar ffurf grant i awdurdodau lleol er mwyn eu cynorthwyo gyda, ymhlith pethau eraill, gweithredu gwe-ddarlledu cyfarfodydd y cyngor ac aelodau yn medru mynychu cyfarfodydd o bell.

4.2 Roedd pob awdurdod lleol yn medru derbyn grant o £20k ar gyfer gwe-ddarlledu a £20k ar gyfer mynychu o bell.

4.3 **Gwe-ddarlledu**

Mae gwe-ddarlledu cyfarfodydd yn golygu ffrydio sain a delweddau cyfarfodydd cyngor yn fyw. Gall y gwe-ddarllediad hefyd fod ar gael ar wefan y Cyngor fel deunydd archif. Mae hyn yn golygu y gall aelodau'r cyhoedd na fedr fynychu cyfarfodydd eu gweld yn fyw arlein neu ar amser neu ddyddiad diweddarach trwy'r archif arlein.

4.4 Mae Llywodraeth Cymru a CLlLC wedi hwyluso cyfarfodydd gyda Swyddogion Gwasanaethau Deomcrataidd i drafod pwnc gwe-ddarlledu a chafwyd arddangosiad o un o'r systemau sydd ar gael.

4.5 Mae cyfleustra ar rai systemau sy'n galluogi i aelodau'r cyhoedd sy'n gwylio cyfarfod sy'n cael ei we-ddarlledu gymryd rhan yn y drafodaeth trwy fforymau fel cyfryngau cymdeithasol megis twitter a Facebook a rhoi eu barn ar faterion sy'n cael eu trafod. Gellir cyflwyno'r deunydd archif fel ei fod ar gael i'w weld gyda llinell amser gysylltiedig yn nodi'r eitemau busnes ac enwau'r siaradwyr, er mwyn i'r gwylwyr fedru mynd yn syth at eitem neu siaradwr y dymunent eu gweld.

4.6 Mae modd gwe-ddarlledu yn y fath fodd fel bod y gwyliwr yn medru defnyddio'r gwasanaeth cyfieithu.

4.7 Nid oes ymrwymiad statudol ar y Cyngor i we-ddarlledu cyfarfodydd. Mae hyn, serch hynny, yn dod yn arfer mwy cyffredin ymhlith awdurdodau lleol.

4.8 Mae gofyn i'r Cyngor eisoes, dan y gyfraith, gynnal cyfarfodydd yn gyhoeddus. Mae gan aelodau'r cyhoedd yr hawl i fynychu cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau eraill.

4.9 Fel rheol nid oes nifer fawr o'r cyhoedd yn mynychu cyfarfodydd ac mae'r cyfleusterau sydd ar gael i dderbyn nifer fawr o bobl yn gyfyngedig.

4.10 Byddai gwe-ddarlledu cyfarfodydd yn golygu bod cyfarfodydd y Cyngor yn fwy hygyrch i aelodau'r cyhoedd.

4.11 Bydd cost yn gysylltiedig â gwe-ddarlledu ac mae grant Llywodraeth Cymru ar gael am flwyddyn yn unig heb unrhyw warant y bydd cyllid yn y dyfodol.

4.12 Yn ychwanegol at ffioedd trwyddedu meddalwedd efallai y bydd angen adnoddau ychwanegol i weithio'r system a chefnogi poblogeiddio llinell amser deunydd archif.

4.13 **Mynychu o bell**

Mae adran 4 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn nodi nad yw cyfeiriad mewn unrhyw statud at gyfarfod awdurdod lleol yn gyfyngedig i gyfarfodydd o bobl sydd oll yn bresennol yn yr un lle.

4.14 Ystyrir bod aelod o'r awdurdod lleol nad yw'n bresennol yn y fan lle cynhelir cyfarfod yr awdurdod hwnnw yn 'Aelod sy'n mynychu o bell" os bodlonir nifer o amodau.

4.15 Yr amodau yw:-

(a) bod yr aelod sy'n mynychu o bell yn medru ar y pryd:

(i) weld a chlywed, a chael ei weld a'i glywed gan yr aelodau sy'n mynychu'r cyfarfod ei hun;

(ii) yn gweld a chlywed, a chael ei gweld a’i glywed, gan unrhyw aelodau o’r cyhoedd sydd â hawl i fynychu’r cyfarfod sy’n bresennol yn y fan honno ac sydd â hawl i siarad yn y cyfarfod, a

(iii) ei weld a’i glywed gan unrhyw aelodau eraill y cyhoedd sydd â hawl i fynychu ac sy’n bresennol yn y cyfarfod.

(b) bod y person sy’n mynychu o bell yn medru, ar y pryd, clywed a chael ei glywed gan unrhyw aelod arall sy'n mynychu o bell ac ynglŷn â’r hwn y mae’r amodau ym mharagraff (a) yn cael eu bodloni ar y pryd, a

(c) nad yw defnyddio cyfleusterau sy’n galluogi bodloni’r amodau ym mharagraffau (a) a (b) mewn perthynas ag aelod sy’n mynychu o bell yn cael ei wahardd gan y rheolau sefydlog neu unrhyw reolau eraill yr awdurdod sy’n llywodraethu’r cyfarfod.

4.16 Nad oes cworwm ar gyfer y cyfarfod ar unrhyw adeg lle mae nifer yr aelodau sy’n mynychu o bell yn gyfartal gyda neu’n fwy na nifer yr aelodau sy’n mynychu mewn gwirionedd.

4.17 Rhaid i’r awdurdod lleol roddi ystyriaeth i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â mynychu o bell.

4.18 Nid yw a.4 y Mesur wedi dod i rym eto. Yn ei lythyr, nododd y cyn-Weinidog y byddai’r ddarpariaeth yn dod i rym yn ddiweddarach eleni.

4.19 Mae anawsterau yn gysylltiedig â chyflwyno trefniadau mynychu o bell, ac nid rhai technegol yw’r lleiaf o’r rhain. Nid yw’n glir bod system sy’n galluogi nifer fawr o bobl yn mynychu o bell yn ymarferol.

4.20 Mae materion llywodraethu i’w hystyried hefyd, yn ymwneud â:-

- chyfrinachedd trafodaethau Rhan II;
- y posibilrwydd o herio penderfyniadau os bydd technoleg yn methu ac os nad yw aelodau sy’n dymuno mynychu o bell yn medru mynychu a phleidleisio;
- y posibilrwydd o gael cyfarfodydd heb gworwm oherwydd cydbwysedd aelodau sy’n mynychu o bell a’r sawl sy’n bresennol yn y cyfarfod go iawn.

4.21 Byddai angen newid rheolau sefydlog a gweithdrefnau’r Cyngor i wneud darpariaeth ar gyfer y materion hyn.

## 5 Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae’r posibilrwydd o gael gwell mynediad i’r cyhoedd weld cyfarfodydd y Cyngor a chysylltu gyda’r Cyngor trwy gyfryngau cymdeithasol yn cyfrannu tuag at y flaenoriaeth i Foderneiddio’r Cyngor i gyflawni effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau i’n cwsmeriaid.

## 6 Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio gwasanaethau eraill?

6.1 Rhagwelir y bydd gwe-ddarlledu yn costio rhyw £20k y flwyddyn. Nid yw cost mynychu o bell yn hysbys eto.

**7 Pa ymgynhori a fu?**

7.1 Ymgynghorwyd â'r Tîm Gweithredol Corfforaethol ac mae o'r farn y dylid dodi mater gwe-ddarlledu gerbron y Cyngor er mwyn iddynt benderfynu os ydynt eisiau gwe-ddarlledu cyfarfodydd ai peidio.

**8 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

8.1 Dylid ystyried cost gweithredu'r cynigion mewn perthynas â'r cyllid sydd ar gael. Dylid cynnwys y costau o fewn yr arian sydd ar gael. Byddai unrhyw gostau parhaus y tu hwnt i gyfnod y grant yn bwysau ariannol ar y Cyngor.

**9 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y medrwn ei wneud i'w lleihau?**

9.1 Y risgiau sy'n gysylltiedig â gwe-ddarlledu yw, os caiff ei weithredu ac os nad yw'r system yn gweithio'n gyson yna gallai enw da'r Cyngor ddioddef.

Mae perygl na fydd cyllid ychwanegol gan Llywodraeth Cymru ar gyfer y system hon o 2014/15 ymlaen.

Y risg sy'n gysylltiedig â pheidio â gweithredu gwe-ddarlledu yw y bydd y Cyngor yn cael ei ystyried fel Cyngor sydd ar ei hôl hi os bydd awdurdodau eraill yng Nghymru ym mynd rhagddynt â'r cynnig.

Nodir rhai risgiau sy'n gysylltiedig â mynychu o bell ym mharagraff 4.20.

**10 Pŵer i wneud y penderfyniad?**

10.1 A111 Deddf Llywodraeth Leol 1972.